OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 206

## Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

## RHAN 8

### Gofynion o ran hysbysiadau: iechyd planhigion

**Gofynion o ran hysbysiadau mewn perthynas â thatws hadyd**

**24.**—(1) Rhaid i weithredwr proffesiynol sy'n dod ag unrhyw un neu ragor o'r tatws a ganlyn i Gymru, o leiaf ddau ddiwrnod cyn y dyddiad y disgwylir iddynt gyrraedd Cymru, roi hysbysiad ysgrifenedig i arolygydd iechyd planhigion ynglŷn â'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)—

(a) tatws hadyd a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu mewn Aelod-wladwriaeth arall neu yn y Swistir, neu

(b) tatws, heblaw tatws hadyd, a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu yng Ngwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania neu Sbaen.

(2) Dyma'r materion—

(a) yr amser a'r dyddiad y disgwylir iddynt gyrraedd,

(b) eu diben arfaethedig,

(c) eu cyrchfan arfaethedig,

(d) eu hamrywogaeth a'u nifer, ac

(e) rhif adnabod cynhyrchydd y tatws.

(3) Ym mharagraff (1)(b), ystyr "Sbaen" yw'r rhan honno o Sbaen sydd wedi ei chynnwys o fewn tiriogaeth yr Undeb at ddibenion Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE, heblaw Ynysoedd Baleares.

**Gofynion o ran hysbysiadau mewn perthynas â ffrwythau sitrws**

**25.**—(1) Rhaid i weithredwr proffesiynol sy'n cyflwyno ffrwythau sitrws hysbysadwy i diriogaeth yr Undeb drwy safle rheoli ar y ffin mewn rhan arall o diriogaeth yr Undeb, cyn iddynt gyrraedd y safle rheoli hwnnw ar y ffin, roi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru yn y cyfeiriad penodedig ynglŷn â'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (2).

(2) Dyma'r materion—

(a) y dyddiad y disgwylir eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd;

(b) enw'r safle rheoli ar y ffin;

(c) eu swm;

(d) rhifau adnabod eu cynwysyddion;

(e) enwau, cyfeiriadau a lleoliadau'r mangreoedd yng Nghymru lle maent i gael eu prosesu.

(3) Ym mharagraff (1)—

ystyr "cyfeiriad penodedig" ("*specified address*") yw'r cyfeiriad a roddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd at ddibenion y rheoliad hwn;

ystyr "ffrwythau sitrws hysbysadwy" ("*notifiable citrus fruits*") yw ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., *Microcitrus* Swingle, *Naringi* Adans., neu *Swinglea* Merr., yn tarddu o drydedd wlad, sydd i'w prosesu'n ddiwydiannol yn sudd yng Nghymru.

**Gofynion o ran hysbysiadau mewn perthynas â phlanhigion a chynhyrchion planhigion eraill**

**26.**—(1) Rhaid i weithredwr proffesiynol sy'n dod ag unrhyw un neu ragor o'r planhigion neu'r cynhyrchion planhigion a ganlyn i Gymru, cyn y dyddiad y maent yn cyrraedd Cymru neu heb fod yn hwyrach na phedwar diwrnod ar ôl y dyddiad y maent yn cyrraedd Cymru, roi hysbysiad ysgrifenedig i arolygydd iechyd planhigion ynglŷn â'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)—

(a) planhigion *Castanea* Mill., *Fraxinus* L., *Olea europaea* L., *Pinus* L., *Platanus* L., *Prunus* L., *Quercus* L. neu *Ulmus* L. a fwriedir i'w plannu, a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu mewn Aelod-wladwriaeth arall,

(b) planhigion *Castanea* Mill., *Fraxinus* L., *Olea europaea* L., *Pinus* L., *Platanus* L., *Prunus* L., *Quercus* L. neu *Ulmus* L. a fwriedir i'w plannu, a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu yn y Swistir ac nad yw Erthygl 47(1) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yn gymwys iddynt, neu

(c) pren tanwydd solet o Aelod-wladwriaeth arall, neu bren tanwydd solet o drydedd wlad nad yw Erthygl 47(1) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yn gymwys iddo.

(2) Dyma'r materion—

(a) y dyddiad y disgwylir i'r llwyth gyrraedd neu, os yw'r llwyth wedi cyrraedd Cymru, y dyddiad y cyrhaeddodd Gymru gyntaf;

(b) cyrchfan arfaethedig y llwyth, neu os yw'r llwyth wedi cyrraedd ei gyrchfan arfaethedig yng Nghymru, ei leoliad presennol;

(c) genws, rhywogaeth a nifer y planhigion neu'r pren yn y llwyth;

(d) y wlad y traddodwyd neu y traddodir y planhigion neu'r pren ohoni;

(e) yn achos planhigion y bwriedir eu plannu, rhif adnabod cyflenwr y planhigion;

(f) yn achos pren tanwydd solet—

(i) cyfeiriad y traddodwr, a

(ii) manylion unrhyw driniaethau ffytoiechydol a roddwyd i'r pren.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "pren tanwydd solet" yw pren tanwydd ar ffurf logiau, plociau, brigau, ffagodau neu ffurfiau tebyg eraill.